

Clerc / Clerk Gwenda Owen valleycommunitycouncil@gmail.com
Trigfa, Four Mile Bridge, LL65 2EZ (01407 740046)
<http://www.valleycommunitycouncil.com>

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor / Minutes of the Council Meeting
7.00 y.h. / p.m. Nos Fercher / Wednesday 17.12.14

1. **Croeso / Welcome.**

Bu croeso cynnes i aelod newydd o'r Cyngor Cymuned, sef Mr C Moore./A warm welcome was extended to Mr C Moore, a new member of the council.

2. **Presennol / Present**
Ymddiheuriadau / Apologies

Presennol / Present : Cyng/ Coun M Swaine Williams (Cadeirydd/Chair), H Wilson, K Taylor, D Walters, C Furlong, G Browne, MBE W Rogerson, MBE, C W Torr, D Griffith, N Tuck, C Moore, Cyng Sir/County Coun G O Jones, R A Dew

Ymddiheuriadau / Apologies: Dim wedi ei derbyn./Nil received.

3. **Datganiad o ddiddordeb / Declaration of interest**

Dim wedi ei derbyn/Nil received.

4. **Cofnodion cyfarfod 19.11.14/ Minutes of the meeting 19.11.14**

15.4 Cadarnhaodd Cyng Wilson nad oedd yn erbyn y twmpathau gan fod eu hangen ynghyd aphalmant. /Councillor Wilson confirmed that she was not against the humps as they were required alongside a pavement.

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir ar ol eu cywiro fel a nodir uwchlaw. / *The minutes were accepted as correct subject to above amendment.* Cynnig/Eilio CT/GB Prop.Sec

6. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes 19.11.14**

1. Lledu Afon Cleifiog y Fali/Dredging Widening River Cleifiog, Valley.

'Roedd Cyng Torr wedi cyfarfod gyda aelod o Adnoddau Naturiol Cymru ac wedi caniatáu mynediad i'r ffosydd/afon ym Mharc Mwd er mwyn eu clirio, gyda'r bwriad o leihau y risg o lifogydd pellach yn y pentref. Mae'r gwaith wedi cychwyn ac maen't hefyd wedi codi'r sbwriel ac yn trwisio'r handrail. Mae posibilrwydd fod rhan o'r broblem yn seiliedig ar y ffaith nad oes cymaint a ddwr môr yn rhedeg i'r ffosydd ers mae'r giatiau newydd wedi ei gosod. Mae tystiolaeth hanesyddol fod dwr halen yn lladd chwyn yn y ffosydd. Fe fydd rhagor o waith yn cael ei wneud pan fydd yr afon yn fwy sych./Councillor Torr had met with a member of Natural Resources Wales and had allowed access to the ditches/river in Parc Mwd in order to clear them to reduce the risk of further flooding in the village. The work has commenced and they have also collected rubbish and will be mending the handrail. There is a possibility that part of the problem is due to the fact that less sea water is running into the ditch since the new gates have been erected. There is historical evidence

that salt water kills the weeds in the ditches. Further work is to be undertaken when the river is drier.

2. Cais am Farn ynglyn a gosod seti yng ngwarchodfeydd bysiau/Request for an opinion regarding fitting seats in the bus shelters.

Derbynniwyd barn gan aelod o Adran Drafnidiaeth y Cyngor Sir. Cytunnwyd i beidio a symyd ymlaen gyda gosod seti am y rhesymau canlynol:-

- [Gallai set o fewn lloches arwain i ddefnydd anghymdeithasol yn enwedig gyda'r nos a gall hyn amharu ar drigolion lleol.
- [Nid yw'n ddelfrydol i ychwanegu set i lochesi "prefab" ar ol eu gosod .
- [Gall set sydd ddim yn rhan o adeiladwaith y lloches gymryd lle gormodol yn y lloches a all amharu ar addasrwydd yr adeiliad i ambell ddefnyddiwr bws, yn enwedig teithwyr mewn cader olwyn.

An opinion from a member of the County Council's Transport Department had been received. It was agreed not to provide seating for the following reasons:-

- [A seat within a shelter may lead to antisocial use particularly in the evenings and this may affect local residents.
- [It is not advisable to add seats to prefab shelters after they have been erected.
- [A seat which is not part of the original build of the shelter may take too much room in the shelter and affect its suitability for some bus users, particularly travellers using wheelchairs.

Cynnig/Eil CT/KT Prop/Sec.

3. Maes Parcio y Fali/Valley Car Park

Derbynniwyd llythyr oddiwrth Prif Beiriannwr y Cyngor Sir ynglyn a 'r maes parcio. 'Roedd y clerc yn awyddus i adrannau perthnasol y Cyngor Sir ddod at ei gilydd i drafod termau'r les gan ei bod yn derbyn gwahanol negeseuon o wahanol adrannau. Yn y man cyntaf, cytunnwyd y byddai'r well i'r clerc a'r cadeirydd gyfarfod ar y safle gyda aelod o'r Adran Briffyrd ac Eiddo er mwyn sicrhau clirdeb ynglyn a chyfrifoldebau o fewn y les.

A letter had been received from the Chief Engineer of the County Council regarding the car park. The clerk was keen for appropriate departments of the County Council to come together to discuss the terms of the lease as she was receiving different messages from different departments. It was agreed that, in the first instance, the clerk and chairman should meet with members of both Property and Highways Departments on site in order to ensure clarity regarding responsibilities within the lease. Cynnig/Eil GB/CT Prop/Sec.

4. Ynys Wen

'Roedd y clerc wedi derbyn cwyn oddiwrth Mrs Walsh ynglyn a difrod i'r gwair yn Ynys Wen oedd wedi ei achosi gan gerbyd. Gan nad oedd neb wedi derbyn cyfrifoldeb, 'roedd y clerc wedi gofyn i GMS fynd yno i dwtio. Cytunnwyd i drefnu cyfarfod o bwyllgor y fynwent ar ddechrau cyfarfod mis Ionawr./The clerk had received a complaint from Mrs Walsh regarding damage to the grass in Ynys Wen, which had been caused by a vehicle. As no-one had declared responsibility, the clerk had asked GMS to tidy up the area. It was agreed that a meeting of the cemetery committee be held at the beginning of January's meeting. Cynnig/Eil GB/CT Prop/Sec.

5. Larwm Ymwythwyr/Intruder Alarm

'Roedd camddealltwriaeth wedi bod ynglyn a chyfarfod aelod o Gwmni Snowdonia Fire a gofynnir i'r clerc drefnu cynnig un enw yn unig pan yn trefnu mynediad i Parc Mwd yn y dyfodol.

Derbynniwyd adroddiad gan Snowdon Fire yn datgan fod y larwm ymwythwyr yn gweithio ac yn cynnig cytundeb i gynnal a chadw'r larwm. Cytunnwyd i symud ymlaen a hefyd i ofyn am gytundeb o'r fath ar gyfer y larwm tan.

There had been a misunderstanding around meeting a member of the Snowdonia Fire Company and the clerk was requested to provide only one name in future when arranging access to Parc Mwd.

A report had been received from Snowdon Fire, confirming that the intruder alarm was in working order and offering a maintenance contract for the alarm. It was agreed to proceed on this basis and also to request a similar contract for the fire alarm.

Cynnig/Eil KT/CF Prop/Sec.

6. Cilfan o flaen Graiglyd Ganol/Lay by in front of Graiglyd Ganol

'Roedd llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth Adran Drafnidiaeth y Cyngor Sir yn datgan na fedrant argymhell unrhyw ateb ymarferol neu gamau gorfodaeth i ddatrys y broblem. Cyng Torr i adrodd hyn i'r tir-feddiannwr. /A letter had been received from the Highways Department of the County Council confirming that they could not recommend any practical solution or enforcement action to remedy this problem. Coun. Torr to report this to the landowner.

7. Parc Mwd

Amcangyfrif wedi ei dderbyn am waith oddiwrth R G Hire fel a ganlyn:-

Cyflenwi a gosod gwli newydd pre-cast a pheipen - £560 + TAU

Adeiladu ramp tarmac - £245 + TAU

Trwsio tarmac - £290 + VAT

Estimate of cost of works received from R G Hire as follows:-

Supply and fit new precasted gully and discharge pipe £560 +VAT

Construct tarmac ramp £245 + VAT

TarmacRepairs £290 +VAT

Cytunnwyd i symud ymlaen/It was agreed to proceed.

Cynnig/Eil GB/CT Prop/Sec.

(Yn dilyn y cyfarfod derbynniwyd ymateb oddiwrth y Cyngor Sir i gais am gyngor ynglyn a thawelu traffig. Adroddwyd mae penderfyniad i'r Cyngor Cymuned fyddai gosod tawelu traffig oddi fewn i giatiâu'r Parc. Er hyn, datganiad a wnaethpwyd gan y Prif Beiriannydd oedd y byddai unrhyw hawliad am anaf personel a achosir gan unrhyw fath o arafu traffig yn gyfrifoldeb ar y Cyngor Cymuned. Ar sail hyn, gohurwyd y gwaith tawelu traffig ar hyn o bryd./Following the meeting a response to a request for advice from the County Council in relation to the traffic calming measures was received. It reported that the decision to provide traffic calming measures within the Park's gates was the responsibility of the Community Council. However, the Chief Engineer also stated that any claim for personal

injury caused by any type of traffic calming measure would be the responsibility of the Community Council. In view of this, work on the traffic calming measures was deferred.)

8. Tawelu traffig Lon Gorad/Traffic Calming Measures Gorad Road

Derbynnwyd ebost oddiwrth Uwch Beiriannwr y Cyngor Sir ynglyn a'r uchod yn cadarnhau'r canlynol:

- [Pan gyflwynwyd y mesurau tawelu traffig gwreiddiol ar Lon Gorad, derbynnwyd cais i'r Cyngor Sir ymestyn y ddarpariaeth. Nid oedd cyllid ar gael ar yr amser ond cytunnwyd i ystyried opsiynnau yn y dyfodol.
- [Pryder y gall datblygiadau Wylfa Newydd a Gwersyll Gweithwyr ger Penrhos arwain at fwy o ddefnydd o Lon Gorad fel "short cut" i'r A5025.
- [O ystyried hyn awgrymwyd cynnwys ymestyn y darpariaeth tawelu traffig ar Lon Gorad fel rhan o'r cais cyllid Llwybrau Mwy Diogel yn y Gymuned ynghyd ac elfennau eraill o waith oedd yn cynnwys llwybr troed i lenwi'r bwlch presennol yn Lon Gorad. Bu y cais yma yn llwyddiannus o ran y tawelu traffig ond gwrthododd Llywodraeth Cymru gyllido y llwybr troed. Er fod y Cyngor Sir wedi herio eu pendefyniad gan egluro mae'r llwybr oedd ei blaenoriaeth uchaf, ni fu eu hapel yn llwyddiannus.
- [Mae'r cynllun tawelu traffig yn cynnwys gosod clustogau yn hytrach na thwmpathau ac mae'r clustogau wedi cael eu dylunio er mwyn caniatau i gerbydau llydan basio heb gael eu hamaru.
- [Anfonwyd 300 o lythyrau i drugolion yn gofyn iddynt ymateb o blaid neu yn erbyn y cynllun a byddent yn parhau i dderbyn ymatebion drwy mis Rhagfyr. Bydd angen dilyn eu polisi lle mae angen i 60% o'r rhai a ymatebodd fod o blaid y cynllun cyn bwrw ymlaen. Os bydd cefnogaeth, byddent yn trefnu'r gwaith. Os na fydd cefnogaeth ni fydd y twmpathau yn cael eu gosod ond byddent yn ystyried y sylwadau eraill a ddebynnwyd ac yn gofyn wrth Lywodraeth Cymru os y gallent drosglwyddo unrhyw gyllid dros ben ar gyfer y gweithgareddau yma. Maen't wedi adrodd ar y posibilrwydd yma i'r Llywodraeth ond mae yn anhebygol iawn y byddent yn caniatau cyllido adeiladu y llwybr troed.
- [Mae y Cyngor Sir yn bwrw ymlaen i brynu y tir ar gyfer y llwybr efo cyllid mewnol ond nid yw y cyllid yma yn ddigonol i adeiladu'r llwybr. Bydd unrhyw waith adeiladu yn ddibynnol ar grantiau pellach neu gyfraniad allanol yn y dyfodol.
- [Fe fydd y Cyngor Sir yn adrodd yn ol ar ganlyniadau'r broses ymgynghori.

Bu trafodaeth ynglyn a'r llwybr troed gyda phwyslais fod ei angen ar yr ochr arall i'r ffordd ac nid ar yr ochr mae'r Cyngor Sir yn ei gysidro oherwydd fod angen tynnu'r gongl beryglus sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Cytunnwyd fod angen gofyn am gefnogaeth Rhun Iorwerth a cytunnwyd y byddai'r clerwr a Chyng Wilson yn dylunio llythyr iddo.

An email had been received from the Principal Engineer of the County Council regarding the above, and confirming the following:-

- [When the original traffic calming measures were introduced on Gorad Road, a request was received to extend the provision but no funding was available at the time but it was agreed that this option would be considered in the future.
- [Concern that the Wylfa Newydd development with a Workers Camp by Penrhos may lead to more use of Gorad Road as a "short cut" to the A5025.
- [In view of this it was suggested that the plan to extend the traffic calming measures on Gorad Road by included within the Safer Routes in the Community Submission together with other schemes including the provision of a footpath to bridge the

current gap on Gorad Road. The request for traffic calming measures was successful but the Welsh Government refused to fund the footpath. Despite being challenged on this decision by the County Council, on the basis that this was the priority, the appeal was unsuccessful.

- [The traffic calming measures include constructing cushions rather than humps and the cushions have been designed so as to allow wide vehicles to pass without being impaired.
- [300 letters have been sent to residents requesting a response in favour or against the project and responses will continue to be accepted throughout December. Policy will need to be followed, where there is a need for 60% of responses to be in favour of the project before it will proceed. Unless there is sufficient support the project will not proceed but the Council will consider other comments received and will ask the Welsh Government if they may transfer the funding towards the footpath. The Council has reported on this possibility to the Government but it is highly unlikely that they will agree to fund the footpath.
- [The County Council will proceed to purchase land for the footpath with internal funding but this funding will be insufficient to meet the cost of constructing the footpath. Any construction work will be dependent on further grants or external contribution in the future.
- [The County Council will report back on the consultation process in due course.

There was discussion regarding the footpath, with emphasis being placed on the fact that it should be on the opposite side of the road to that which the County Council are proposing in order to remove the very dangerous corner which currently exists. It was agreed that the Community Council should seek the support of Rhun ap Iorwerth and it was agreed that the clerk and Councillor Wilson should write to him in this regard.

Cynnig/Eil HW/KT Prop/Sec.

7. Materion Plwyfol/Parochial Matters

1. Llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth Cymdeithas Twristiaeth Ynys Môn/Letter received from Isle of Anglesey, Tourism Association.

'Roedd llythyr wedi ei dderbyn yn datgan canmoliaeth tuag at y blodau a osodwyd yn y pentref yn ystod yr Haf. Clerc i ddsbarthu copi i Grwp Cymunedol y Fali./A letter had been received in praise of the flowers planted in the village during the Summer. Clerk to distribute a copy to the Valley Community Group.

Cynnig/Eil HW/WR Prop/Sec.

2. Croesfan/Crossing

Cytunnodd Cyng D Griffiths i gyfarfod gyda Mr Percy a pherchennog y Swyddfa Bost os fydd angen. /Councillor D Griffiths had agreed to meet with Mr Percy and the owner of the Post Officer if required.

8 Deddf Gynllunio Gwlad a Thref / Town and Country Planning

Dim wedi ei derbyn./ Nil received.

Penderfyniadau/Decisions

1. Cais Rhif/AppNo 49C163Q Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn/Full application for alterations and extensions at 10 Parc Branwen, Valley. Caniatau/Approved.

2. Cais Rhif/App No 49C171H/1 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn/Full application for alterations and extensions at 22 Gorwelion, Valley. Caniatau/Approved.
3. Cais Rhif/App No. 49C163Q Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn/Full application for alterations and extensions at 10 Parc Branwen, Valley. Caniatau/Approved.
4. Cais Rhif/App No 49C23 Cais llawn ar gyfer codi modurdy 3 bae ar dir yn/Full application for the erection of a 3 bay garage on land at Preswylfa Valley. Caniatau/Approved.
5. Cais Rhif/App No 49C31B/SCR Barn sgrinio ar gyfer codi annedd ar dir yn/Screening opinion for the erection of a dwelling on land at 6 Copperfield Close, Valley. Dim angen./Not required.

9. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn / Anglesey County Council Correspondence.

1. Fforwm Cynllunio Ynys Mon Planning Forum 13.11.14 Cofnodion/Notes.

2. Undeb Amaethwyr Cymru/Farmers Union of Wales

Cais am gyfraniad ar gyfer teyrnged i Ferched Byddin y Tir. Cytunnwyd i gyfraniad o £50. /Request for contribution towards a tribute tot he Land Army Girls. Agreed to a contribution of £50.
Cynnig/Eil CT/WR Prop/Sec.

3. Gwahoddiad i dderbyn gwybodaeth ar y ddau Bwyllgor Sgriwtini/Invitation to receive information on the two Scrutiny Committees.

Wedi ei gylchredeg/Already circulated.

10. Gohebiaeth Unllais Cymru

1. **Pwyllgor Ardal Ynys Mon a Chyfarfod Blynyddol/Anglesey Area Committee and Annual Meeting 11.12.14 Shire Hall Llangefni 7.00 yh/pm**
 2. **Making better use of Public Assets Seminar - Seminar Gwneud defnydd gwell o Asedau Cyhoeddus. Wedi ei gylchredeg/Previously circulated.**
-
3. **Climate Change Report / Adroddiad Newid Hinsawdd**

11. Materion Ariannol / Financial Matters

**Manylion Cyfrifon / Details of Accounts – Bank Balances
26/11/14**

Treasurer - £6913.51 Business Manager – £8233.90, Ynys Wen - £10627.37, Capital - £2067.64

(Treasurer account - un-presented cheques £443.00, actual funds available £ 6470.51)

Derbynwyd fel yn gywir yn unol a phwynt 3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali. / Accepted as correct in accordance with Section 3 of the Valley Community Council Financial Regulations. Cynnig/Eil CT/WR Prop/Sec.

12. Taliadau i'w gwneud Hydref/ Payments to be made December

Cyflog y clerc / Clerk' salary - November	£261.28
GMS	£150
HMRC	£195.80

Taliadau wedi ei cymeradwyo yn unol a phwynt 5.3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali./ Payments approved in accordance with Section 5.3 of the Valley Community Council Financial Regulations. (Cynnig/Eilio CT/WR Prop/Sec.)

13 **Archebion Cynghorau Cymuned/Tref 2014/16/Community/Town Council Precepts 2014/16 (Adroddiad drafft eisioes wedi ei chylchredeg./Draft report previously circulated.)**

Bu trafodaeth ynglyn a'r adroddiad drafft a tynnwyd sylw'r aelodau i'r materion islaw gan y clerc, sef:-

- [Mae'r Gyllideb drafft yn caniatáu i'r Cyngor Cymuned ariannu holl gost o osod y ffens o gwmpas y meysydd pel-droed er mae hanner y gost sydd wedi ei gymeradwyo ar hyn o bryd gyda bwriad fod y clybiau pel-droed neu Grwp Cymunedol y Fali yn ariannu rhan o'r gost drwy ffynhonnelli grant addas. Pe byddai ceisiadau am grant yn aflwyddiannus, bydd rhaid ail-gysidro 'r cynllun gan gysidro cyfarfod y gost yn llawn neu derbyn y bydd yr arian wrth gefn ar ddiwedd 2016/17 yn uwch o lawer.
- [Nid oes arian wedi ei glustnodi ar gyfer atgyweirio'r cloc heblaw am ei beintio.
- [Efallai y bydd angen gwaith adnewyddu offer yn y maes chwarae unwaith bydd adroddiad GL Jones wedi ei dderbyn. Nid oes cyllideb mewn lle ar gyfer hyn.
- [Ar hyn o bryd mae swm o £3,500 ychwanegol i gael ei godi yn ygyllideb ar gyfer cynnal a chadw a les y maes parcio. Pe byddai'r prosiect yma ddim yn symud ymlaen, byddai hyn yn cynyddu'r arian wrth gefn ar ddiwedd 2016/17.

Cytunnodd yr aelodau fod risgiau pe byddai'r cynlluniau uwchlaw ddim yn symud ymlaen ond fodd bynnag fod rhaid glustnodi arian ar ei cyfer er mwyn sicrhau fod digon i arian i'w cynnal. Pe byddai'r prosiectau yma ddim yn symud ymlae, byddai modd defnyddio peth o'r arian ar brosiectau gwahanol a chwblhau mwy o waith cynnal a chadw cyffredinol. Ar sail hyn, penderfynnwyd derbyn yr adroddiad a sicrhau fod y gyllideb yn cael ei monitro'n fanwl yn ystod y flwyddyn. Cytunnwyd hefyd i godi cyflog y clerc yn unol a chanllawiau NJC.

The draft report was discussed and the clerk drew members' attention to the following:-

- [The draft Budget allows the Community Council to fund the whole of the cost of erecting a fence around the football pitches although approval has only been made to fund half the cost, with the intention that the football clubs and Valley Community Group apply for appropriate grant funding to meet the remaining half. Should their applications be unsuccessful, the project would need to be reviewed and consideration being given to either meeting the whole cost or accepting that the reserves at the end of 2016/17 will be substantially higher.
- [With the exception of painting, no funding has been earmarked for maintenance/servicing the clock. These costs could be substantial.
- [Once G L Jones' report on the condition of the play equipment has been received, there may be some maintenance work required. No funding has been earmarked for this.

- [At the moment an additional sum of £3,500 is to be raised via the precept for the maintenance and lease of the car park. Should this project not proceed, this will also increase the reserves at the end of 2016/17.

Members agreed that there are risks should the above projects not proceed but, despite this, there is a need to earmark funding for them. Should the projects not progress, it would be possible to use this to fund different projects and complete additional general maintenance/upgrading work. On this basis, it was agreed that the report be accepted with a proviso that the budget be closely monitored during the year. It was also agreed that the clerk's salary be increased in line with NJC guidelines.

Cynnig/Eil GB/CT Prop/Sec.

14. Y Cynulliad / The Assembly

15. Gohebiaeth Amrywiol / Miscellaneous Correspondence

1. Cyfoeth Naturiol Cymru Coed yn nhrefi a dinasoedd Cymru/Natural Resources Wales – Trees in Wales' Towns and Cities Wedi ei gylchredeg/Already circulated.

2. Lleoliad digwyddiadau CTL / Confirmation LTP consultation events. Wedi ei gylchredeg/Already circulated.

3. Ageing Well in Wales / Heneiddio'n Dda yn Nghymru. Wedi ei gylchredeg/Already circulated.

4. Cofrestr Etholwyr 2015 / Register of Electors 2015

Cytunnwyd i beidio a chadw copi ond i ofyn am wybodaeth pe byddai angen./Agreed not to request a copy but to request information should the need arise.

5. Gweithdy Gwerthwch i Gymru & eGaffael :Rhagfyr / Sell2Wales & Eprocurement workshops :December

Wedi ei gylchredeg gyda nodyn i fwcio lle yn uniongyrchol oherwydd yr amserlen./Already Circulated with a note to book direct due to timescales.

6. Prosiect Wylfa Newydd – Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio – Cam Un 20/10-8/12/2014 ymateb Cyngor Bro Llanfairpwll/Re Wylfa Newydd Project – Consultation before Making Application Stage One 20.10.-8.12.14 Llanfairpwll Community Response.

Wedi ei gylchredeg/Already circulated.

7. Grwp Cymunedol y Fali 'Eich Cymuned, Eich Dewis' - Cronfa Cyllideb Gyfranogol Gogledd Cymru 2014 - 'Valley Community Group, Your Community, Your Choice' - Participatory Budget Fund for North Wales 2014

Wedi ei gylchredeg/Already circulated.

16. Calendr/Calendar

17. Dyddiad Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting 21.01.15 7.00 y.h. /p.m.